


Cenn@d

CHWEFOR 8 2023 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 102

Gŵyl Llanw yn dychwelyd i Langrannog, 10–13 Ebrill



Braint imi yw cael ysgrifennu gair fel hyn i dynnu sylw at Ŵyl Llanw sydd i'w chynnal eto eleni, y tro hwn yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Dyma leoliad y ddwy ŵyl gyntaf y bu inni eu cynnal dros 12 mlynedd yn ôl, ac y mae pawb, gan gynnwys y rhai fynychodd yr adeg honno, yn gwybod am y buddsoddiad sydd wedi ei wneud i beri bod y safle yn arbennig, ac yn cynnig ei hun fel lleoliad ardderchog.

Eleni, bydd yr ŵyl yn dechrau gyda chinio ddydd Llun ac yn parhau tan ar ôl cinio ddydd Iau. Bydd yr arlwy ar y byrddau a dros baned yn rhagorol, mae'n siŵr, fel y bydd cael elwa o holl weithgareddau antur y Ganolfan, yn arbennig i'r plant. Ond rydym hefyd yn awyddus i sicrhau arlwy ysbyrdol cyfoethog.

Mi fydd yna oedfaon cyhoeddus am 10 y bore a 7 yr hwyr, ac wrth gwrs, mae croeso i unrhyw un daro i mewn i'r rhain. Bore Mawrth bydd yna oedfa deulu, oedfa dan arweiniad y Parch. Simeon Baker fore Mercher, ac oedfa dan ofal y Parch. Nan Powell-Davies fore Iau. Bydd oedfaon nos Lun, nos Fawrth a nos Fercher dan arweiniad y Parch. Stuart Bell. Un o nodweddion oedfaon Llanw yw'r addoliad, a bydd y grŵp Adlais yn arwain bob nos, ac amrywiaeth o grwpiau yn gwneud hynny bob bore. Bydd hefyd rhaglen lawn o weithgarwch plant ac ieuencid.

Yn dilyn oedfaon y bore, ac i'r rhai sydd am osgoi llethr sgïo Llangrannog yn y prynhawn, bydd yna ddarpariaeth eang o seminarau, darlith ac astudiaeth Feiblaidd. Bydd y rhaglen lawn yn ymddangos ar ein gwefan gyda hyn.

Oherwydd gofynion diogelu yn ogystal â gofynion Llangrannog, bydd angen cofrestru i fynychu os ydych yn dod am y diwrnod neu i'r ŵyl gyfan. Bydd hyn yn ofynnol i sicrhau'r gwaith plant ac ieuencid a hefyd i sicrhau bod Llangrannog yn gwybod pwy sy'n dod am fwyd. Mae'r cwbl yn rhwydd iawn, a medrwch gofrestru drwy ymweld â gwefan Llanw – www.llanw.org – a mynd at dudalen Gŵyl 2023. Nid oes angen cofrestru i fynychu oedfa'r bore ac oedfa'r hwyr yn unig.

Wrth edrych ymlaen at ddathlu'r atgyfodiad eto fyth, gweddiwch gyda ni y bydd hon yn gynhadledd fydd yn gweld Duw yn bywau ei waith eto, yn annog a herio, ac yn meithrin cymdeithas ac undod ymhlith pobl Dduw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ŵyl, am y llety neu unrhyw beth arall, anfonwch e-bost at: ymholiadau@llanw.org.

Meirion Morris (Cadeirydd)



AI
Tudalen 3



Coffad a gwerthfawrogiad
Y Parch. O. J. Roberts
Tudalen 4



Dychmygu William Morgan
Tudalen 7

Daeargryn dinistriol yn taro de-ddwyrain Twrci – Cymorth Cristnogol yn lansio apêl frys am gymorth



Fe drawodd daeargryn dinistriol, maint 7.8, dde-ddwyrain Twrci ger y ffin â Syria yn oriau mân dydd Llun, 6 Chwefror 2023.

Mae miloedd lawer o ddynion, merched a phlant wedi marw neu wedi'u hanafu yn dilyn y daeargrynfeydd yn Nhwrci a Syria. Nid yw'n rhy hwyr i achub bywydau. Mae Cymorth Cristnogol eisoes yn gweithio gyda phartneriaid yng ngogledd-orllewin Syria i ddarparu citiau gaeaf i bobl sy'n chwilio am loches. Mae pob gweddi, pob rhodd, pob gweithred yn dod â gobaith i bobl sydd wedi'u taro gan drychineb.

Hyd yn oed cyn y daeargryn dinistriol hwn, roedd dros bedair miliwn o bobl angen cymorth yng ngogledd-orllewin Syria.

Mae bron i dair miliwn o bobl wedi eu dadleoli yn sgil y gwrthdaro hir yn Syria, ac mae 80% ohonynt yn fenywod a phlant.

Nawr, mae tywydd eithafol a chostau cynyddol bwyd a phrisiau tanwydd oherwydd gwrthdaro parhaus yn gwaethgu'r sefyllfa.

Mae pobl yn wynebu argyfwng ar ben argyfwng.

Ein hymateb

Mae'r ymateb i'r anghenion dyngarol yn Wcráin wedi bod yn rhyfeddol. Rhaid inni hefyd fynd ati i gyflawni ein hymrwymadau i'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan y daeargryn yn Nhwrci a Syria.

Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid lleol yng ngogledd-orllewin Syria ers 2012.

Y prif anghenion yn ôl ein timau partner sydd yn y maes yw:

- Pecynnau gaeafu gan gynnwys blancedi, matresi, parseli bwyd a deunydd gwresogi. Roedd ein partneriaid eisoes wedi caffael 40,000 o becynnau gaeafu gan ddefnyddio arian Cymorth Cristnogol cyn y daeargryn ac wedi dechrau dosbarthu'r rhain yn syth o fewn llochesi ar y cyd yng ngogledd-norgorllewin Syria.



- Paratoi llochesi i helpu pobl i ddod o hyd i rywaint o ddiogelwch y tu mewn rhag y tywydd.
- Gweithio gyda gweithredwyr lleol eraill i symud malurion ac yn yr ymdrechion achub.

Anghenion eraill a ddisgwyllir yw:

- Addysg mewn argyfyngau
- Cefnogaeth iechyd meddwl a seicogymdeithasol, yn enwedig i blant a phobl ifanc
- Cefnogaeth sylfaenol dŵr, glanweithdra, hylendid ac urddas
- Bwyd sylfaenol, lloches, a chymorth iechyd.

Er mwyn achub bywydau a rhoi gobaith i bobl, rhwch beth allwch chi heddiw ar y ddolen hon: [Apêl Daeargryn Twrci a Syria – Cymorth Cristnogol](#) neu anfonwch eich cyfraniad at Cymorth Cristnogol – Apêl Twrci a Syria, Capel y Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD. Byddai Cymorth Cristnogol yn ddiolchgar pe gellid anfon pob cyfraniad siec yn uniongyrchol i: **Christian Aid, 35–41 Lower Marsh, London SE1 7RL**, neu cysylltwch â: cymru@cymorth-cristnogol.org am gyngor ar ffyrdd eraill o dalu cyfraniadau.

Caethwasiaeth fodern, masnachu a chamfanteisio ar bobl: safbwynt Cymreig gan Ali Ussery

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ddifrifol ac yn groes i hawliau dynol. Mae'n cynnwys masnachu pobl, pan fydd rhywun yn cael ei gipio a'i ddal yn erbyn ei ewyllys, ei recriwtio a'i orfodi i weithio neu i gyflawni trosedd, cymryd rhan mewn gwasanaethau rhywiol, neu gaethwasiaeth yn y gweithle neu gaethwasanaeth domestig.

Mae dros 50 miliwn o bobl ledled y byd yr ystyrir eu bod yn gaeth ([Sefydliad Llafur Rhyngwladol](#)), ond nid problem sy'n bodoli mewn mannau pellennig yn unig yw hon, oherwydd yn y Deyrnas Unedig yn 2021 cofnodwyd yn swyddogol fod 12,727 o ddioddefwyr posibl ([Swyddfa Gartref](#)), tra mae llawer mwy wedi llithro drwy'r system. Nid yw ffigurau diwedd blwyddyn 2022 wedi'u cyhoeddi eto, ond disgwyllir y bydd i'r nifer godi gan mai 12,530 o atgyfeiriadau oedd y cyfanswm ar gyfer tri chwarter cyntaf y flwyddyn. Mae'r data'n cynnwys cam-drin yn erbyn gwladolion y Deyrnas Unedig a thramor, gyda'r rhan fwyaf o'r achosion mewn oedolion yn ymwneud ag 'ecsbloetio llafur', sy'n cynnwys gwaith mewn ffatrioedd, lletygarwch, twristiaeth, y system gofalu, gwasanaethau fel glanhau a golchi ceir ac ati. Yn achos plant y mae'r gyfran uchaf yn enghreifftiau o 'gamfanteisio troseddol' sy'n ymwneud yn bennaf â chludo a gwerthu cyffuriau drwy'r hyn a adwaenir fel 'llinellau sirol'.

Gwelir realiti trasig caethwasiaeth fodern yn gynyddol yn ein cymunedau heddiw. Mae [Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru](#), a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dod ag asiantaethau statudol a rhai'r trydydd sector ynghyd. Ar hyn o bryd, mae'r fforwm hwn yn datblygu strategaeth newydd a fydd yn cynnwys cydweithio rhwng pedwar gweithgor: 'Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth', 'Atal', 'Grŵp Dioddefwyr a Goroewyr', a 'Grŵp Cymru Foesegol a Rhyngwladol'.

Cynrychiolir eglwysi ar y fforwm gan Ali Ussery, sy'n adrodd yn ôl trwy Cytûn.

Mae hi'n eithriadol o bwysig bod cymunedau eglwysig a phobl o ffydd yn ymwneud â'r mater hwn fel un o'r troseddau mwyaf difrifol yn erbyn dynoliaeth yn ein cyfnod modern. Nid yw cydnabod fod y gamdriniaeth hon yn digwydd yn ei holl ffyrdd cymhleth, a phenderfynu na allwn weithredu i wneud gwahaniaeth, yn dderbyniol. Fel credinwyr mewn Duw cariadus a thosturiol, sôn yr ydym am fodau dynol sydd wedi eu llunio ar Ei lun a'i ddelw Ef, ac mae gan bawb yr hawl i fyw bywyd rhydd. Yr her yw sut i symud ymlaen. Mae cymaint o'r drafodaeth swyddogol yn ymwneud â sylwi ar arwyddion camfanteisio, sut i adrodd am bryderon, cefnogi dioddefwyr a goroewyr, ac yna dod â'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau o flaen eu gwell. Os ydym o ddifrif, mae'n rhaid inni edrych ar wraidd y broblem a gweithio'n galetach ar atal, gweddi, eiriol a newid y cwmrawd moesol fel bod cam-drin yn cael ei atal cyn iddo ddigwydd.


Mae yna lawer o elusennau sydd wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â chamfanteisio dros y degawd diwethaf a mwy ledled y Deyrnas Unedig. Mae Hafan o Oleuni yn fudiad sy'n gweithio'n agos yng ngogledd Cymru gyda'r Eglwys yng Nghymru a Rhwydwaith Rhyddid Ewropeaidd Cyngrhair Efengylaidd Ewrop (www.havenoflight.co.uk). Am wybodaeth, cysylltwch ag info@havenoflight.uk.

(O Fwletin Polisi Cytûn, Chwefror/ Mawrth '23)



Llun trwy garedigrwyd Hafan o Oleuni

AI



Llun CC 2.0 gan Mike Mackenzie
<https://www.flickr.com/photos/152824664@N07/30212411048/>

Fe allai'r dyn (neu'r wraig) AI fod yn gymorth neu, yn wir, ddatblygu i fod yn ganolog i fywyd eglwys i'r dyfodol. Dyna, yn ôl erthygl a ymddangosodd ar wefan yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn yr Almaen yn ddiweddar, fydd cyfraniad cynyddol AI.

Bydd darllenwyr *Cenn@d* yn deall ar un waith nad cyfeirio at y 'tarw potel' mae'r ysgrif!

Yn yr erthygl awgrymwyd bod technoleg gyfrifiadurol Deallusrwydd Artiffisial (*Artificial Intelligence* neu AI) yn datblygu mor gyflym fel y bydd modd, yn fuan iawn, i unigolion gynnal 'sgwrs' â'r cyfrifiadur yn union fel pe baent yn cynnal sgwrs â pherson arall. Honnir bod rhaglen ChatGPT eisoes yn medru ffurfio i atebion ei hun i bob cwestiwn a ofynnir iddo /iddi, bron.

Cyn hir, bydd modd ymwneud â'r 'bod' cyfrifiadurol robotiaidd a bydd hyn yn ei dro yn galluogi pobl i ymholi ar eu telerau eu hunain am *wybodaeth* am

Gristnogaeth. Bydd y dechnoleg yn medru cynnig atebion i gwestiynau am ystyr ffydd hyd yn oed. Rhagwelir y gallai'r dechnoleg ganiatáu i eglwys a chynulleidfaoedd *ddarparu gwybodaeth* sy'n berthnasol i'w haelodaeth. Awgrymwyd y gallai'r dechnoleg *ddarparu adnoddau* a hyd yn oed ymateb i gwestiynau sy'n codi mewn astudiaeth Feiblaidd neu grŵp tŷ. Neu efallai y bydd y dechnoleg yn medru *trefnu digwyddiadau*, neu reoli amserlenni gweithwyr eglwysig, a'u galluogi i ganolbwyntio ar bethau hanfodol i'w gweinidogaeth.

Yn ôl Simon Linder, awduryr erthygl, bydd angen i ni ddysgu defnyddio'r adnodd yn ddoeth. Ond nid oes amheuaeth, meddai, na fydd technolegau o'r fath, sy'n cael eu defnyddio'n gynyddol gan gwmnïau masnachol, yn effeithio yn y pen draw ar fywyd cynulleidfaoedd ar lawr gwlad.

Tybed sut ydych chi'n ymateb i bosibiliadau ac i heriau datblygiadau

o'r fath? Sut fydddech chi'n defnyddio adnodd o'r fath pe bai ar gael? A fyddai datblygiad o'r fath yn peri pryder i chi? Pa ganllawiau fydddech chi'n eu creu, neu pa ffiniau fydddech chi am eu rhoi o amgylch defnydd doeth o'r dechnoleg?

Neu tybed a fydddech yn reddfod yn wrthwynebus i'r syniad o droi at gyfaill robotiaidd am wybodaeth neu esboniad o ddirgelion dyfnaf bywyd? Ar y llaw arall, mewn gwirionedd, a oes yna wahaniaeth, heblaw am wahaniaeth gradd, rhwng defnyddio'r dechnoleg AI a defnyddio Google?

Neu a fydddech am fynnu mai rhywbeth sy'n dibynnu ar berthynas pobl a'i gilydd yn unig mewn 'cymdeithas' yw hanfod bywyd eglwys? Gadewch i ni wybod eich barn!

<https://www.katholisch.de/artikel/43310-kuenstliche-intelligenz-wird-die-kirche-veraendern>

RWJ

Gair o Gydyndeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth tri o weinidogion o blith y Bedyddwyr yn ddiweddar.

Bu'r Parch. Aled Jenkins yn weinidog ffyddlon gyda'r enwad gydol ei oes, gan dreulio blynyddoedd lawer fel gweinidog yn Hwlfordd o fewn Cymanfa Penfro. Cydymdeimlwn â Marlene, ei weddw, a'r teulu oll yn eu galar.

Yn yr un modd bu'r Parch. Roger Hart yn weinidog yng Ngwent ac ym Mhenfro, gan ofalu am yr eglwys yn Noc Penfro cyn

ymddeol, a hefyd fel Arolygydd y Gymanfa am rai blynyddoedd. Cydymdeimlwn â'i deulu oll yn eu hiraeth.

Bu farw'r Parch. Keith Hodges hefyd yn ddiweddar. Bu yntau a'i briod annwyl, Barbara, yn genhadon gyda'r BMS – Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr – ym Mrasil am flynyddoedd lawer, cyn ymddeol i Rogerstone yng Ngwent. Eto, cydymdeimlwn â'r teulu yn eu hiraeth.

Coffâd a gwerthfawrogiad: Y Parch. O. J. Roberts

Ganwyd y Parch. O. J. Roberts yn 1922 ym Mhensarn, Penrhyndeudraeth, yn fab i Catherine a Robert Roberts; ef oedd yr hynaf o bedwar brawd, ac roedd ganddo hefyd dair chwaer. Er bod y teulu o fodd cyffredin, yr oedd cadernid cariad a pherthynas yn rhan annatod o fywyd yr aelwyd. Ni chafodd ond un cyfnod o afiechyd difrifol drwy gydol ei fywyd, a hynny yn ystod ei blentyndod pan fu cryn bryder a fyddai'n goroesi. Ond trwy ofal ei nain Jane, a oedd yn llysieuidd enwog yn yr ardal, fe ddaeth ato'i hun, a mwynhau iechyd rhyfeddol i gael cyrraedd ei flwydd yn 100 oedd y llynedd, gan dderbyn y llongyfarchion arferol gan y Frenhines, ac o lysoedd y Cytundeb.

Penderfyniad hynod gan ei rieni oedd symud y teulu o ddiogelwch y Penrhyn i berygl cymharol Salford ym Manceinion, a hynny yng nghanol y rhyfel yn 1943! Y cymhelliad oedd ceisio cyfleoedd gwell i'r plant, ac fe dalodd hynny ar ei ganfed.

Yr oedd O. J. yn berson anturus, llawen a diolchgar, yn hoff o bobl ac o le. Bu iddo gyfarfod â'i briod ym Manceinion, a symud i'w ofalaeth gyntaf yn Nhaliesin, cyn cyfnodau wedyn yn y Cymau, Llwyngwril, a diweddu ei weinidogaeth ym Mhontrhydfendigaid. Yna, cafwyd ymddeoliad yn y Rhyl, cyn iddo golli ei briod yn 1999, a symud i Gorwen wedi hynny. Yn 98 oed, fe symudodd i dref Rhuthun, ac yno y daeth i ddiwedd ei daith.

Yr oedd yn gerddwr brwd hyd ei farw, ac wrth ei fodd yn chwilota a darganfod mannau newydd, a thebyg mai ei ddiddordeb byw yn y byd o'i gwmpas, a digon o awyr iach a'i cadwodd cyhyd. Yr oedd yn ddyn annwyl a hoffus iawn, ac yn ddyn teulu i'r carn. Ergyd drom iddo fu colli ei fab yng nghyfraith a fu'n gymaint cefn iddo yn ei annibyniaeth, rai wythnosau yn ôl, ac mae'r ddau bellach ddrws nesaf i'w gilydd yn erw Duw. Fel y dywedodd Eleri, ei ferch, yn ei theyrnged iddo, 'Bu'n esiampl i bawb o sut mae byw bywyd llawn, bodlon a hapus.'

Estynnir ein cydymdeimlad ag Elfed ac Eleri a'r teulu oll.

Morris P. Morris

Atgofion am y Diweddar Barchedig O. J. Roberts

Dair gwaith y bûm yn pregethu ym Mlaenau Ffestiniog, ar Suliau ym mis Awst 1973, 1974 a 1976, ac ar un o'r rhain (ni allaf gofio pa un o'r tri) roedd y Parchedig Owen John Roberts yn treulio'r Sul yn yr un tŷ â mi. Gan fod y ddau ohonom yn rhydd yn y pwn, fe aethom am dro o gwmpas 'Stiniog gyda'n gilydd. Er ein bod yn hollol ddieithr i'n gilydd – fo'n weinidog cefn gwlad a finnu'n athro ysgol mewn ardal drefol yn Lloegr – fe gawsom amser pleserus iawn yng nghwmni ein gilydd.

Ddarau ein llwybrau ddim croesi wedyn tan tua 1987. Roedd O. J. Roberts newydd ymddeol o'i ofalaeth olaf a symud i'r Rhyl i fyw a minnau'n dal yn athro yn Sir Gaer ac yn flaenor yng nghapel St John Street, Caer. Ar ôl i'r (diweddar bellach) Barchedig Rhys ab Ogwen Jones symud i Gapel Mawr, Rhos, a Johnstown i weinidogaethu, roedd gennym ni nifer fawr o Suliau gwag i'w llenwi ac fe ddaeth O.J. i lenwi nifer ohonyn nhw. Roedd pawb wedi cymryd at ein cyfaill yn fawr iawn. Roedd yn cofio enwau'r



Y Parch. Eric Greene yn cyflwyno tystysgrif i'r Parch. O. J. Roberts am gwblhau 70 mlynedd yn y weinidogaeth, hydref 2021

ffyddloniaid o un ymweliad i'r nesaf ac yn gartrefol iawn yn ein mys – cymaint felly fel ein bod ni wedi gofyn iddo ystyried ein bugeilio dros dro (ymweld a chymryd y seiat ayyb) ac yntau ddim ond yn byw yn y Rhyl. Ond er nad oedd yn gweld ei ffordd yn glir i wneud hynny, fe arhosodd yn ffrind da i ni yr adeg honno.

Aeth cyfnod hir heibio cyn i ni gyfarfod nesaf a hynny ar ôl i mi newid o fod yn athro i fod yn weinidog. Roeddwn yng Nghonwy yn angladd y Parchedig Brian Griffith, fy rhagflaenydd yn fy ail ofalaeth, sef Capel Tegid, y Bala, ac yno hefyd yr oedd O. J. Roberts, oedd erbyn hynny'n byw yng Nghorwen. Ychydig o bregethu roedd o'n ei wneud bellach ac roedd o wastad yn bresennol yn Seion, Corwen, pan fyddwn yn pregethu yno.

Flwyddyn neu ddwy yn ôl, clywais ei fod wedi symud i Ruthun i fyw yn agos at ei ferch, Eleri, ac ychydig fisoedd yn ôl, mi gefais y ffrind, fel Llywydd y Sasiwn, o fynd i'w longyfarch ar ddathlu saith deg o flynyddoedd yn y weinidogaeth a hefyd ar gyrraedd ei gant oed. Cawsom bnawn hynod o ddifyr yng nghwmni ein gilydd yn cofio gwahanol bethau, gan gynnwys ein cyfarfyddiad yn 'Stiniog yr holl flynyddoedd yn ôl.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gorfod ffariweliu â thri gŵr yr oeddwn yn hoff iawn ohonynt a'r tri wedi eu dwyn i fyny yn yr un capel, yn Nasareth, Penrhyndeudraeth, sef William Davies, a'n gadawodd yn ei saithdegau; Tom Leonard Williams, a gyrhaeddodd ei nawdegau; ac Owen Roberts, a fu byw'n ddigon hen i gael cenadwri gan y Frenhines!

Mawr yw ein dyled o ddiolch am wasanaeth maith, am wasanaeth oes!

Eric Greene

Bod yn bresennol yn y gymuned

Mae sawl ffordd greadigol o estyn allan i'r gymuned er mwyn ymuno â gwaith Duw yno a rhannu lesu gyda'ch cymdogaion, mewn gair a gweithred.

Mae rhai o'r rhain yn fodelau cyfarwydd y mae eglwysi wedi bod yn eu cynnal ers degawdau, fel bore coffi neu grŵp mam a'i phlentyn. Ond dros y blynyddoedd diwethaf ymddangosodd ffyrdd newydd, creadigol i ymateb i'r gymdeithas o'n hamgylch.

Roedd Iesu'n bwydo pobl. Boed hynny'n grwpiau o filoedd neu'n giwed o'i ddisgyblion ei hun, byddai Iesu'n gweinidogaethu i'r sawl oedd o'i gwmpas gan ddefnyddio bwyd.

Pantri cymunedol, banciau bwyd a FareShare

Banciau bwyd Mae'r rhain bellach yn rhan o'r dirwedd ar draws Cymru, gan ddarparu bwyd i bobl a allai fel arall gael anhawster i sicrhau digon ohono. Gallwch un ai redeg un eich hun fel eglwys neu gefnogi un yn eich ardal drwy wirfoddoli neu roi eitemau. Mae cynnal banc bwyd yn ymrwymiad mawr ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: [Start a Food Bank](#) – The Trussell Trust.

FareShare Bydd y cynllun hwn yn aml yn rhedeg ochr yn ochr â banc bwyd gan ddarparu bwyd ffres i fynd gyda'r bwyd tun a geir o'r banc bwyd: FareShare | [Fighting hunger](#), tackling food waste in the UK.

Pantri cymunedol Math o go-op bwyd lleol yw hwn lle bydd pobl yn talu tâl aelodaeth o £3.50 ac yna'n gallu dewis o leiaf 10 eitem o blith detholiad o fwydydd yn wythnosol. Yn wahanol i fanciau bwyd, does dim rhaid i bobl gael eu cyfeirio'n swyddogol at y rhain, a'r nod yw eu bod ar gael i bawb yn y gymuned: [Your Local Pantry](#).

Gofod cynnes

Yn anffodus, mae'r anghenion yn ein cymdeithas wedi cynyddu i'r fath raddau fel bod mannau cynnes wedi dod yn anghenraid i lawer ledled y wlad, gyda darpariaeth ar gael mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a hyd yn oed mewn amgueddfeydd. Mae cyfran fawr o'r mannau hyn yn cael eu rhedeg gan eglwysi, gan fod llawer ohonynt wedi teimlo'r alwad i weld sut y gallant ddefnyddio'u cyfleusterau i gyfrannu at gyrraedd yr angen mawr yma – a chyfuno'r angen am gynhesrwydd sylfaenol â bwyd a chwmniaeth. Os ydych chi'n gwresogi eich adeilad ar gyfer digwyddiadau sy'n agored i bawb yn ystod y gaeaf, beth am fynd ati i gofrestru'r gofod fel man cynnes?



Dyma ambell beth i'w ystyried wrth ddarparu man cynnes:

Cost a chapasiti Oes gennych ddigon o bobl i agor a rhedeg y man cynnes mewn modd addas, gan sicrhau ei fod ar agor yn wythnosol?

Y gymuned Does dim budd mewn cystadlu â grwpiau eraill yn yr ardal – beth am gydlynw a chefnogi eich gilydd?

Cofrestru Gwiriwch beth arall sydd ar gael yn eich ardal a nodwch pryd fydd eich man cynnes chi'n agor yma: [Find a Warm Welcome Space Today](#) (Efallai fod tudalen debyg gan eich cyngor sir hefyd).

Ariannu Allwch chi ariannu'r biliau ar gyfer eich man cynnes? Ar hyn o bryd mae rhai grantiau ar gael gan gynghorau lleol a'r llywodraeth ar gyfer hyn; mynnwch sgwrs er mwyn darganfod a fyddai eich man cynnes chi'n ddilys i dderbyn eu cefnogaeth.

Bwyd Mae llawer o fannau cynnes a drefnir gan eglwysi yn cynnwys cynnig pryd o fwyd: gweler, er enghraifft, <https://ubc.cymru/gofod-cynnes/>.

Caffi trwsio

Mae caffis trwsio yn syniad newydd ac arloesol. Yn fyr, digwyddiadau yw'r rhain sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd lle bydd aelodau'r gymuned yn medru dod ag eitemau cyffredin o'u cartrefi sydd wedi torri i gael eu trwsio. Gallant fod yn bethau sydd wedi cael eu difrodi neu eu torri, ac fe gânt eu trwsio am ddim gan wirfoddolwyr. Enghreifftiau yw dillad, nwyddau trydanol, technoleg ddigidol, gwaith pren, teganau plant, dodrefn a beiciau.

Mae'r rhain yn cynnig ffordd greadigol o ddefnyddio sgiliau rhai o fewn eich eglwys, a gwasanaethu ac adeiladu perthynas â phobl yn eich cymuned yr un pryd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: [Repair Cafe Wales](#) – Local Community Repair Cafés.

Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2022–2023

Mae Rhaglen Cymanfaoedd Canu Cydenwadol 2022–23 nawr ar gael!

Gellir eu harchebu drwy ffonio Helen Gibbon, Ysgrifennydd y Pwyllgor Mawl Cydenwadol: 01267 290518

Meinir Lloyd Jones: 01766 770 745

Alan Wynne Jones: 01970 828163

Geraint Roberts: 01745 888183

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

17 Torri Cyfamod

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 9)

Darllen: Genesis 15:7-21

Wedi ystyried rôl allweddol cyfiawnhad, ac yn benodol y ffordd y mae Duw yn 'cyfrif' cyfiawnder inni, rydym yn troi yn awr at y ffordd y mae Duw yn cyfamodi i sicrhau hynny. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig cadw mewn cof rai egwyddorion sy'n greiddiol i'n dealltwriaeth: fe gredodd Abraham yn y Duw oedd wedi ei alw o unman, heb unrhyw ragoriaeth, heb unrhyw waith, heb unrhyw deilyngdod. Daeth at ddyn oedd yn byw yn Haran a chyhoeddi addewid ryfeddol iddo. Gwaith Duw, o'i ewyllys ei hun, oedd y galw, a'r cyfan y medrwn ei ddweud am Abraham yw ei fod, fel ninnau, wedi credu Duw; mae adnodau 7-12 yn cadarnhau'r egwyddor hon.

I ddeall yr adnodau, rhaid deall ychydig am y ffordd y byddai cytundebau'n cael eu gwneud yn y cyd-destun hanesyddol. Heddiw, byddwn ni'n tueddu i gael cyfreithiwr i ddrafftio cytundeb neu gyfamod, ac yna, wedi deall ei gynnwys, mae'r partïon i'r cytundeb hwnnw'n arwyddo darn o bapur. Wedi ei arwyddo, mae yna ymrwymiad o'r ddwy ochr, ond mae yna oblygiadau hefyd. Mae yna 'brint mân' ac yno yn aml ceir dealltwriaeth o'r hyn fydd yn digwydd os bydd y naill bartner neu'r llall yn torri'r cytundeb. Yng nghyd-destun Abraham, doedd 'na ddim cyfreithwyr, dim darn o bapur, ond mi roedd yna gytundebau neu gyfamodau. Yn llythrennol, byddai pobl yn 'torri cyfamod', nid yn yr ystyr o'i anwybyddu ar ôl ei arwyddo, er y byddai hynny'n digwydd yn aml, ond torri cyfamod oedd ei arwyddo. Yn llythrennol, mae adnod 18 yn y gwreiddiol yn dweud: 'Y dydd hwnnw, gwnaeth (torrodd) yr ARGWYDD gyfamod ag Abram'. Mae gen i gof fod fy nhad wedi fy ngwahodd rywbryd i 'dorri fy enw' ar rywbeth, hynny yw, i arwyddo

rhyw ddogfen neu'i gilydd. Ac os oedd yna gytundeb neu gyfamod i'w arwyddo yma, gellir dweud bod Duw yn 'torri ei Enw' ar y cyfamod yn yr hanesyn hwn.

Yn yr adnodau yma mae Duw yn sicrhau Abraham o'r addewidion sydd ganddo ar ei gyfer, a hyd yn oed yn rhoi ychydig o amserlen iddo. Nid yn unig y bydd Abraham ei hun yn cael byw i oedran teg, ond bydd y wlad yn cael ei rhoi i'w had wedi 400 mlynedd yn yr Aifft. (Mae'r cyfeiriad at 'ddrygioni'r Amoriaid' (adn. 16) yn gyfeiriad at yr holl lwythau oedd yn byw yng Nghanaan yr adeg honno, gan nodi nad rhywbeth anwadal yw cyfiawnder Duw, ond fod yna bwynt yn dod yn eu drygioni lle y bydd yna gosb am y drygioni hwnnw.) Yn rhyfeddol, mae Duw yn ymateb i amheuan Abraham yn adn. 8 â gras anghyffredin eto fyth. Rydym ni yn aml yn euog o'r un amheuan wrth fynegi awydd am gael rhyw arwydd. Beth bynnag, i wneud neu dorri cyfamod mae Duw yn gofyn i Abraham estyn amryw o anifeiliaid a'u hollti yn eu hanner. Byddai'r haneri'n cael eu gosod y naill ochr a'r llall, ac fe fyddai partneriaid y cyfamod yn cerdded drwy'r canol. Wrth wneud hynny maent yn dweud, 'Os na fyddaf yn cadw'r cytundeb, bydded imi gael fy hollti neu ddioddef y felltith y mae'r anifeiliaid hyn wedi ei phrofi'. Roedd gwneud cyfamod o'r fath yn gam difrifol iawn gan eu bod cystal â dweud, os na fyddaf yn ei gadw, dwi'n haeddu marw.

Os yw'n wir mai gwaith ac addewid Duw sy'n cael eu pwysleisio wrth gyfeirio at gyfiawnhau drwy ffydd, mae'r adnodau hyn am bwysleisio eto nad oedd gan Abraham ran weithredol yn y cyfamod y mae Duw yn ei wneud. Sylwch ar adnod 11, fel petai Abraham yn disgwyl y byddai'r seremoni o gerdded drwy'r anifeiliaid yn digwydd yn union wedi'r torri; ond, oherwydd yr oedi, mae'n gorfod hel yr adar i ffordd! Yna cawn wybod bod Abraham wedi syrthio i drwmwsg fel yr oedd yr haul yn machlud, ac yna, yn adnod 17, wedi i'r haul fachlud, mae Duw yn cerdded drwy'r anifeiliaid.

Sylwch, Duw sy'n gwneud hyn, neu'n torri'r cyfamod, a hynny tra oedd Abraham yn cysgu.

Mae'r cyfan yn codi nifer o gwestiynau, a dau yn benodol. Pam oedd yr Un sy'n methu torri ei air yn cerdded drwy'r anifeiliaid hyn, a pham nad yw Abraham yn dod trwodd? Yn ateb i'r cwestiwn cyntaf, dim ond nodi'r hyn sydd wedi ei ddangos yn barod, sef bod sicrwydd addewidion Duw yn deillio o bwy yw Duw yn ei ffyddlondeb. O ran yr ail gwestiwn, wel, dyma ryfeddod holl neges y Beibl. Mae ein Duw ni, Duw a Thad yr Arglwydd Iesu Grist, yn cyfamodi i gadw pobl, ac yn sicrhau hynny drwy eu caru i'r fath raddau fel ei fod yn cymryd eu gwrthryfel, eu hanffyddlondeb, arno'i hun. Mae Paul yn Galatiaid 3:13 yn dweud: 'Prynodd Crist ryddid i ni oddi wrth felltith y Gyfraith pan ddaeth, er ein mwyn, yn wrthrych melltith, oherwydd y mae'n ysgrifenedig: "Melltith ar bob un a grogir ar bren!"' Mae Duw yn addo cadw ei bobl, mae Ef yn ffyddlon. Wrth 'dorri'r cyfamod' ei hun, mae'n gysgod o'r realiti fydd yn dod yn amlwg yng ngwaith Iesu, realiti y byddwn ni'n ei gofio wrth Fwrdd yr Arglwydd wrth glywed geiriau Iesu: 'Hwn yw fy nghorff, yr hwn a dorri drosodd.' Mae'r felltith yn dod arno Ef, Duw'r Mab, i sicrhau'r addewid i ni!

1. Wrth ystyried adnod 8, dywedodd y pregethwr enwog C. H. Spurgeon: "Beth? Abraham, onid yw addewid Duw yn ddigon i ti? ... Ond anwyliaid, mae ffydd yn aml yn cael ei sarnu gan fesur o anghrediniaeth; neu, os nad anghrediniaeth, gan ryw ddyhead i gael rhyw ernes, rhyw arwydd y tu hwnt i addewid moel Duw." Trafodwch.
2. I ba raddau y mae deall cefndir gwaith Iesu yn yr Hen Destament yn rhoi hyder a sicrwydd i'n ffydd?
3. Trafodwch gynnwys emyn enwog John Elias, 'Ai am fy meiau i' (*Caneuon Ffydd*, 482), yng ngoleuni'r adnodau hyn.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 12 Chwefror, am 7.30yp

Mae mis Chwefror yn fis hanes LHDTC+, sy'n gyfle i ni ddatlu cyfraniad pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws a Chwiar i Gymru a'r byd. Cawn hefyd glywed stori'r cerddor Meurig Thomas

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 12 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Catrin Hughes yn cyflwyno emynau o gymnanfa Capel Hermon, Cynwyl Elfed

Sul, 12 Chwefror, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Aneurin Owen, Llansannan

Dychmygu William Morgan

Cyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg—a datblygiad ffotograffiaeth—ychydig a wyddom ni ynghylch pryd a gwedd enwogion y gorffennol, sut rai oeddynt o ran eu golwg a'u hymddangosiad. Gydag eithriadau prin y rhai a ddarluniwyd fel yr oeddynt gan arlunwyr mewn portreadau, cynnyrch dychmyg yw ein delweddau o enwogion Cymru cyn oes Victoria. Byddai eiconograffeg enwogion Cymru—sut y'u darluniwyd mewn gweithiau celf—yn bwnc ymchwil diddorol.

Tybed a fu ichi feddwl erioed sut un o ran pryd a gwedd oedd yr Esgob William Morgan, cyfieithydd y Beibl? 'Wyddom ni ddim, wrth gwrs, ond er hynny fe'i darluniwyd gan artistiaid ar bapur a hefyd mewn marmor, pren, a chlai. Hyd y gwn i, mae o leiaf bedwar cerflun ohono. Yr enwocaf a'r hynaf ohonynt yw'r un o waith R. L. Boulton, cerflunydd o Cheltenham, arygofeb agodwyd yn 1892 o flaen eglwys gadeiriol Llanelwy i goffáu cyfieithwyr y Beibl. Fe geir cerfluniau eraill mymryn yn ddiweddarach ohono, ar dalcen llyfrgell Prifysgol Bangor (tua 1911) ac yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, un o blith nifer o gerfluniau o Gymry enwog a ddadorchuddiwyd gan Lloyd George yn 1916. Ond efallai mai'r cerflun mwyaf trawiadol o'r esgob yw'r un diweddaraf, un saith droedfedd o uchder a gerfiwyd o bren derw gan Barry Davies, cerflunydd nodedig o Lanrhaeadr-ym-Mochnant, yn 2012. Fe'i gosodwyd yn wreiddiol o flaen Neuadd y Pentref yn Lanrhaeadr, cyn ei symud yng Ngorffennaf 2021 i eglwys y plwyf i'w ddiogelu rhag y tywydd. Os ewch ar grwydr i Lanrhaeadr manteisiwch ar y cyfle i weld y gwaith arbennig hwn. (Mae cerflun marmor



o Ddewi Sant gan Barry Davies yn Eglwys Gadeiriol Gatholig Caerdydd, ac un arall marmor ganddo o Lywelyn Fawr yn Eglwys Gadeiriol Caerwrangon (Worcester).)

Pan ddathlwyd pedwarcanmlwyddiant cyfieithu'r Beibl yn 1988 fe brynais gopi o'r ffacsimili o Feibl gwreiddiol William Morgan a gyhoeddwyd ar y pryd. Ond ni wyddwn am wrthrych arall a luniwyd i ddathlu'r pedwarcanmlwyddiant nes i ddarn o gelfyddyd yn coffáu'r esgob a luniwyd yn 1988 ddod i'm sylw yn ddiweddar. Darn sylweddol o grochenwaith – un modfedd ar ddeg o uchder – yw hwn, gwaith arlunydd a chrochenydd o'r enw Harvey Thomas (1932–2017), gŵr o Bontiêts yn sir Gaerfyrddin a fu'n Ddarlithydd Celf yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, o 1965 hyd 1985. Yn ei stiwdio yng Nghapel Dewi yn Nyffryn Tywi fe gynlluniodd Harvey Thomas nifer o ddarnau crochenwaith i ddathlu enwogion Cymru, megis 'Cyfres Cofio', cyfres o blatiau a gynhyrchwyd ar ei ran gan gwmni A. ac M. Griffiths, Felingwm, yn darlunio ymhlith eraill Gerallt Gymro, Owain Glyndŵr, a Williams Pantycelyn.

Yn 1988 fe gynlluniodd blât i goffáu William Morgan. Ond fe luniodd hefyd ddelweddau crochenwaith tri dimensiwn o enwogion fel Griffith Jones, Llanddowror, Mari Jones, ac o William Morgan yntau. Yn ôl y Parch. Aled Davies, fe gostiai'r ddelwedd o William Morgan £400 i'w brynu yn 1988, tipyn o bris yn y cyfnod. Yn wahanol i'r cerfluniau ohono – sy'n darlunio William Morgan ar ei sefyll – ei ddarlunio yn eistedd ar ei orsedd esgobol a'i Feibl yn ei ddwylo ar ei lin a wnaeth Harvey Thomas. Tybed a ŵyr rhywun ymhlith darllenwyr *Cenn@d* am ddarnau tebyg i William Morgan a luniwyd gan Harvey Thomas heblaw y rhai y cyfeiriais atynt uchod?

Gruffydd Aled Williams



Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Adeiladu a Thyfu

Emyn 690: 'Tydi, a ddaethost gynt o'r nef'

Darlleniad: Deuteronomium 30:15-20

Gwedd

Arglwydd, diolch dy fod yn ein gwahodd bob dydd i ddewis 'byw' go iawn. Yn wir, dy garu, rhodio yn dy ffyrdd a chadw dy orchmynion yw cyfrinach bywyd yn ei gyflawnder. Caniatâ i ni ddewis cefnu ar lwybrau angau a mellith er mwyn i ni fedru canfod llwybrau o fendith ac o fywyd. Dysg ni hefyd i adnabod dy lais, i llynu wrthot a chanfod mai ti dy hun yw bywyd ac nad oes fywyd ar wahân i ti mewn gwirionedd. Arglwydd Iesu, bydd yn dda wrthym ac anadla dy fywyd arnom drwy dy Ysbryd Glân. Amen.

Gwynfyd

Ambell waith fe glywn bobl yn dweud rhywbeth tebyg i hyn: 'Dwi ddim yn credu yn Iesu Grist, ond dwi'n hoffi ei ddysgeidiaeth, yn arbennig y Bregeth ar y Mynydd.' Mae'n rhaid cyfaddef ar adegau fel yna y caf fy nhemtio i ddweud wrthynt ei bod yn amlwg nad ydynt wedi darllen geiriau heriol Iesu Grist o gwbl! Prin y gellir clywed geiriau mwy heriol na'n darlleniad nesaf!

Darlleniad: Mathew 5:21-37

Emyn: 'Bydd yn welediad fy nghalon a'm byw'

Darlleniad: 1 Corinithiaid 3:1-9
'Cydwethwyr dros Dduw'

Y Tîm

Dychmygwch dîm pêl-droed llwyddiannus. Yn sefyll fel cawr diogel rhwng y pyst mae'r gôl-geidwad. Mae pawb yn gytûn y byddai'r tîm yn llawer salach hebddo. Wrth fynd drwy'r safleoedd, tyngai rhai o'r cefnogwyr mai cyfrinach llwyddiant y clwb oedd yr amddiffynnwr cryf a fyddai'n taclo'n ddiarbed. Ond mynnai eraill mai'r chwaraewr canol cae oedd y wir seren, tra mynnai eraill mai'r asgellwyr chwm neu'r blaenwyr dawnus oedd yn sgorio mor aml oedd cyfrinach llwyddiant y tîm. Ar ôl ychydig, dechreuodd un garfan o gefnogwyr y gôl-geidwad ddyrchafu ei glodydd uwchlaw pawb arall. Buan y trodd y gwerthfawrogiad o gyfraniad un yn esgus dros ddifrio gweddill y tîm. Wrth i'r tymor fynd yn ei flaen, dechreuodd y chwaraewyr eu hunain gystadlu â'i gilydd am glodydd y cefnogwyr ac am amodau mwy ffafriol yn eu cytundebau! Buan y cododd

eiddgedd a hunan-glod plentynnaidd ei ben, a dechreuodd y tîm golli gemau a chefnogwyr.

Roedd y cefnogwyr a'r chwaraewyr fel ei gilydd wedi anghofio bod llwyddiant y tîm yn dibynnu ar weithredu'r wireb, 'Gorau chwarae, cyd-chwarae'. Yn wir, yng nghanol eu cecru plentynnaidd, yr oeddynt mewn perygl o lwyr anghofio mai diben y tîm oedd chwarae, a chystadlu gyda'i gilydd, er lles a llwyddiant y clwb.

Yr Eglwys

Rhywbeth tebyg oedd wedi digwydd yng Nghorinth. Mynnai rhai o'r eglwysymbleid i ddyrchafu plaid Apolos, Paul, Ceffas, neu Iesu hyd yn oed! Yn hyn o beth dangoswyd pa mor arwynebol oeddynt a pha mor 'gnawdol' oedd eu dealltwriaeth o natur neu ddiben Eglwys Iesu Grist. Datgelodd eu hagweddau tuag at y 'gweision' gwahanol mai babanod na fedrent fwyta bwyd solet o gwbl oeddynt mewn gwirionedd (adn. 2).

Felly, er mwyn iddynt 'dyfu i fyny' ac aeddfedu yn eu dealltwriaeth, ceisiodd Paul egluro iddynt sut y dylent ystyried Paul, neu Apolos, neu unrhyw un arall o arweinwyr yr eglwys, yn ogystal â sut y dylent edrych ar ogoniant yr eglwys fel garrd neu adeiladwaith Duw.

'Dim ond gweision'

Yn y byd Rhufeinig lle roedd caethwasanaeth yn cael ei dderbyn fel rhywbeth 'normal' a chaethweision yn cael eu hystyried fel eiddo'i meistriaid, mynnai Paul mai 'gweision' ac nid caethweision heb statws oedd Paul, Ceffas neu Apolos!

Os nad oeddynt yn gaethweision, nid oeddynt ar y llaw arall yn feistri! 'Dim ond gweision' oeddynt, yn atebol i'w meistri i gyflawni'r 'gorchwyl a gafodd gan yr Arglwydd'.

O fewn cartref Rhufeiniaid cyfoethog roedd gan rai a ystyrid yn 'weision' o benodiad y meistri statws a chyfrifoldebau neilltuol. Gan y stiwardiaid, er enghraifft, yr oedd y cyfrifoldeb o stiwardio eiddo'r meistri a sicrhau bod y 'teulu' a'i waith yn rhedeg yn esmwyth. Y stiward oedd yn gyfrifol am les y teulu. Gan y gweision yr oedd y cyfrifoldeb o sicrhau bod bwydydd maethlon yn cael eu darparu, er lles y teulu. Eu cyfrifoldeb hwy oedd gweini wrth y byrddau. O fewn teulu'r meistri roedd gan y rhai oedd yn 'ddim ond gweision' gyfrifoldebau penodol

a neilltuol i weithio, i gydweithio er lles y meistri ac iechyd ei deulu.

Braint

O fewn eglwys Iesu Grist rhoddwyd i Paul ac Apolos (a phob arweinydd arall o ran hynny) y fraint o fod yn 'weision y daethoch chi i gredu drwyddynt'. Ac am fraint. Derbynniasant yr anrhydedd o gyhoeddi, o egluro, o berswadio, o alluogi pobl i ganfod trugaredd Duw tuag atynt, i fwrw eu hymddiriedaeth arno, ac i geisio deall ystyr eu ffydd a goblygiadau credu yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Cyd-weithwyr yn yr ardd, adeiladwyr teml

Felly, er mai 'dim ond gweision' oeddynt, roedd ganddynt gyfrifoldebau a chyfraniadau gwahanol i'w cyflawni i fywyd y saint er lles yr eglwys. Roedd ganddynt ddoniau gwahanol, talentau gwahanol a chyfrifoldebau gwahanol. Byddai pob arweinydd yn derbyn 'ei dâl ei hun, yn ôl ei lafur ei hun' ym mhen y rhawd.

Felly, galwyd Paul ac Apolos i fod yn 'gyd-weithwyr', yn gyd-adeiladwyr, yn gyd-arddwyr yng ngwaith yr Arglwydd.

Yng ngerddi'r Arglwydd cafodd un y dasg o blannu'r had a derbyniodd y llall y cyfrifoldeb dros ddyfrhau'r tir. Yr Arglwydd, fodd bynnag, oedd yr hwn oedd yn llwyddo'r gwaith trwy 'eglwur brawf yr ysbryd a'i nerth' (1 Corinithiaid 2:2) ac ef oedd, ac sydd, yn caniatáu i'w ardd ffynnu a ffrwytho.

O newid y darlun, mae'r Eglwys fel 'adeiladwaith Duw' yn cael ei hadeiladu ganddo fel teml iddo'i hun, yn 'adeiladwaith' sy'n 'gartref' i'r Ysbryd Glân.

Y mae i bob 'gwas' ei gyfrifoldeb ei hun ac y mae i bob maen yn yr adeiladwaith dwyfol ei bwysigrwydd ei hun. Ond mae harddwch y cyfanwaith, yr ardd ffrwythlon neu'r adeiladwaith urddasol, teilwng o'r Arglwydd, sy'n dragwyddol hardd yn llawn o ddisgleirdeb nefol yn gorff cyfansawdd, yn gymdeithas o 'feini byw' na fydd yn gyflawn heb ein gilydd.

Gwaith yr Arglwydd yw'r cyfan er ei ogoniant!

Gwedd

Arglwydd, deled y dydd 'pan fo awelon Duw / yn chwythu eto dros ein herwau gwyw'. Caniatâ i'th eglwys heddiw fod 'yn erddi Crist, / yn ffrwythlon iddo ef'. Adeilada dy Eglwys. Llanw ni â'th ogoniant; llanw ni â'r Ysbryd Glân. Amen.

Emyn 612: 'Un sylfaen fawr yr eglwys'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)